**RHYBUDD o Benderfyniadau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar ffurf cyfarfod rhithwir ar ddydd Mercher, 1 Gorffennaf 2020.**

***[Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig, a bydd cofnodion llawn o'r cyfarfod gerbron y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i'w cymeradwyo}.***

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** | Y Cynghorydd Nicola Roberts (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Richard Owain Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, Glyn Haynes, T.Ll. Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, Eric Wyn Jones, Bryan Owen, Dafydd Roberts a Robin Williams. |
| **Ymddiheuriadau:** | Dim |
| **Hefyd yn bresennol:** | Y Cynghorydd Richard Dew (Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd).<br><br>(1.00 pm – 1.45 pm) |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 COFNODION** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 20 Mai, 2020 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.** |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 YMWELIADAU SAFLE** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **Ni chynhaliwyd yr un ymweliad.** |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 CEISIADAU FYDD YN CAEL EU GOHIRIO** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **6.1 FPL/2019/223 – Cais llawn i newid defnydd a wneir o dir amaethyddol er mwyn sefydlu safle gwersylla tymhorol i bebyll ar dir ger Pen-Wal Bach, Pen Lôn, Niwbwrch.**<br><br>**Penderfynwyd gohirio ystyried y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog am y rhesymau a nodwyd.**<br><br>**6.2 19C1231 – Cais amlinellol ar gyfer codi 32 o anheddau marchnad agored a 4 annedd fforddiadwy, adeiladu mynediad newydd i** |

| | |
|---|---|
| | **gerbydau a cherddwyr, darparu man chwarae a mannau agored ynghyd â manylion llawn mynediad a gosodiad ar dir ger Stad Cae Rhos, Ffordd Porthdafarch, Caergybi.**<br><br>**Penderfynwyd gohirio ystyried y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog am y rhesymau a nodwyd.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 CEISIADAU'N CODI** |
| PENDERFYNIAD | **Nid ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath gan y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 CEISIADAU ECONOMAIDD** |
| PENDERFYNIAD | **Nid ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath gan y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 CEISIADAU AM DY FFORDDIADWY** |
| PENDERFYNIAD | **Nid ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath gan y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 CEISIADAU'N GWYRO** |
| PENDERFYNIAD | **10.1 VAR / 2020/7 - Cais o dan Adran 73 i i amrywio amod (02) (Cynlluniau a gymeradwywyd), amod (03) (Cynllun Rheoli a Chynnal a Chadw), amod (15) (Sgrin Derfyn) yng nghaniatâd cynllunio VAR /2019/34 (Codi 4 fflat) er mwyn newid y cynllun draenio a darparu manylion y sgrin derfyn yn 8 Ger y Môr, Rhosneigr.**<br><br>**Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog a chyda'r amodau cynllunio a restrir ynddo ac yn amodol hefyd ar gywiro amod (11) fel yr amlinellwyd.**<br><br>**10.2 VAR / 2020/8 - Cais o dan Adran 73 i amrywio amod (02) (Datganiad Madfallod** |

| | |
|---|---|
| | **Cribog), amod (04) (Goleuadau Allanol), amod (12) (Manylion Draenio), amod (13) (codi 3 annedd) er mwyn amrywio'r amodau trwy ddarparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ynghyd â newid dyluniad yr annedd ar dir yn Bryn y Felin, Niwbwrch**<br><br>**Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog a chyda'r amodau cynllunio a restrir ynddo ac yn amodol hefyd ar gywiro amod (10) fel yr amlinellwyd.**<br><br>**10.3 VAR / 2020/6 - Cais o dan Adran 73 i amrywio amod (01) caniatâd materion a gadwyd yn ôl cyfeirnod RM / 2019/6 (dyluniad yr annedd) er mwyn caniatáu dyluniad diwygiedig a chael gwared ar y garej ar dir yn Tan Rallt, Carmel**<br><br>**Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog a chyda'r amodau cynllunio a restrir ynddo, ynghyd ag amod ychwanegol i nodi terfynau amser y caniatâd a roddir.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 CYNIGION DATBLYGU A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION** |
| PENDERFYNIAD | **Nid ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath gan y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **12 GWEDDILL Y CEISIADAU** |
| PENDERFYNIAD | **12.1 HHP/2020/37 – Cais llawn i godi garej breifat yn Y Bwthyn, Llanddaniel**<br><br>**Penderfynwyd gwrthod y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog am y rheswm a nodwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.**<br><br>**12.2 FPL/2020/71 – Cais llawn am estyniad sy'n cynnwys lifft yn Ysgol Gyfun Llangefni, Ffordd Cildwrn, Llangefni**<br><br>**Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog a chyda'r amodau cynllunio a restrir ynddo.**<br><br>**12.3 FPL/2020/70 – Cais llawn am estyniad sy'n cynnwys lifft platfform yn Ysgol Llanfawr,** |

| | |
|---|---|
| | **Caergybi**<br><br>**Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog a chyda'r  amodau cynllunio a restrir ynddo ynghyd ag amod ychwanegol mewn perthynas â draenio dŵr** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **13 MATERION ERAILL** |
| PENDERFYNIAD | **13.1 LBC/2020/1 – Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer mynediad newydd, signal niwl newydd a phaneli solar newydd yng Ngoleudy Trwyn Du, Penmon.**<br><br>**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a'i gynnwys er gwybodaeth** |